TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

WJEC / City & Guilds Diploma Childrens Care, Learning and Development Level 2

Yn gryno

Bydd y cwrs hwn yn datblygu eich sgiliau o ran gofalu am blant. Byddwch yn astudio unedau ar arfer gofal plant, cynydd a datblygiad, iechyd a diogelwch, gweithgareddau chwarae a chreadigol sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth gyfredol.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych eisiau gweithio gyda phlant a phobl ifanc

... Rydych eisiau gwneud cymwysterau pellach mewn disgyblaeth gysylltiedig

... Rydych eisiau gwella eich gwybodaeth a sgiliau mewn gofal plant.

Beth fyddaf yn ei wneud?

Yn ystod y cwrs hwn byddwch yn ennill y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio gyda

phlant a phobl ifanc o'u geni hyd at 19 mlwydd oed. Mae'n edrych ar amrywiaeth o swyddi a meysydd galwedigaethol, ac yn eich paratoi chi ar gyfer gweithio mewn amgylchedd â phlant, yn cynnwys y blynyddoedd cynnar a gofal cymdeithasol.

Mae'r cwrs yn gyfuniad o theori ac ymarfer. Byddwch yn treulio tri diwrnod yr wythnos yn y coleg yn datblygu'r elfennau gwybodaeth a damcaniaethol y cymhwyster, a deuddydd yr wythnos mewn lleoliad gwaith (yn ogystal â lleoliadau bloc lle fo'n ofynnol) yn cael profiad ymarferol o weithio gyda phlant a phobl ifanc.

Byddwch yn datblygu gwybodaeth am y pwnc yn ystod y cwrs, a chewch eich asesu ar amrywiaeth o gymwyseddau Theori ac Ymarfer. Mae rhan sylweddol o'r asesiad yn digwydd yn eich lleoliad gwaith, ond mae gofyn i chi hefyd gwblhau asesiadau mewnol ac allanol.

Pan fyddwch yn cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill y cymwysterau canlynol:

Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 2 - CBAC/City & Guilds
Lefel 2 Craidd
Lefel 2 Theori ac Ymarfer
Mathemateg a Saesneg

Byddwch hefyd yn cwblhau cymwysterau perthnasol eraill i gyfoethogi eich cyfuniad o sgiliau, megis:

Hylendid bwyd
Cymorth Cyntaf Pediatrig

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Bydd disgwyl i chi ymrwymo i astudio am 5 diwrnod bob wythnos, ac mae hynny'n cynnwys sesiynau addysgu yn ymdrin ag elfen wybodaeth y cymwysterau yn y coleg, a diwrnodau/blociau lleoliad gwaith ar gyfer elfen gymhwystra y cymhwyster.

Mae ymrwymiad llawn ibresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd tuag at y pwnc, y diwydiant gofal/gofal plant a'r gallu i gymell eich hun.

Byddwch yn cael eich asesu'n barhaus yn ystod y cwrs ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs/lleoliad gwaith yn ystod eich amser eich hun.

Beth sy'n digwydd nesaf?

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, byddwch yn gallu parhau â Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 3 CBAC/City & Guilds.

Byddwch hefyd yn barod i gamu i fyd gwaith, a chael swydd fel cynorthwyydd ysgol feithrin, meithrinfa, creche, gweithiwr gofal plant y tu allan i'r ysgol neu gynorthwyydd Cylch Meithrin.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd rhaid i bob dysgwr gael gwiriad DBS boddhaol cyn dechrau'r cwrs hwn.